| | |
|---|---|
| **Dyddiad creu:** | 10/08/20 |
| **Dyddiad cyhoeddi:** | 10/08/20 |
| **Rhif y fersiwn:** | 1.00 |

| | |
|---|---|
| **Manylion cyswllt:** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili<br>Uned Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol<br>DiogeluData@caerffili.gov.uk |
| **Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | COVID-19 – Defnyddwyr Gwasanaethau – Cadarnhadau o ran COVID-19 a chasglu/defnyddio manylion cyswllt ymwelwyr â chyfleusterau/ defnyddwyr gwasanaethau at ddibenion Profi, Olrhain a Diogelu. |
| **Disgrifiad o'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Bydd yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn egluro sut y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn defnyddio'ch data personol a gesglir wrth i chi fynd i mewn i'n cyfleusterau neu wrth i chi gael cyswllt wyneb yn wyneb ag un o weithwyr, gweithwyr asiantaeth, gwirfoddolwyr neu aelodau etholedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili mewn perthynas â:<br>• Cadarnhadau o ran COVID-19 (sef, ar hyn o bryd, nad oes gennych chi unrhyw symptomau COVID-19 ac NI ddywedwyd wrthych chi, eich aelwyd na'ch aelwyd estynedig am hunanynysu ac nad ydych chi ar hyn o bryd yn destun cwarantîn COVID-19 ar ôl teithio neu gyfnod o salwch)<br>• Eich manylion cyswllt at ddibenion Profi, Olrhain a Diogelu GIG Cymru |

# Sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth

## Y diben a'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth

### Diben y gwaith prosesu

Er mwyn sicrhau diogelwch pawb, cyn i chi fynd i mewn i'n cyfleusterau neu gyfarfodydd wyneb yn wyneb mewn mannau eraill ag un o weithwyr, gweithwyr asiantaeth, gwirfoddolwyr neu aelodau etholedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (y Cyngor), gall y Cyngor ofyn am gadarnhad gennych chi nad oes gennych chi unrhyw symptomau COVID-19 ac NI ddywedwyd wrthych chi, eich aelwyd na'ch aelwyd estynedig am hunanynysu ac nad ydych chi ar hyn o bryd yn destun cwarantîn COVID-19 ar ôl teithio neu gyfnod o salwch.

Gellir gwrthod mynediad i'n cyfleusterau/at ein gwasanaethau, er diogelwch eraill, os gofynnwn am y cadarnhadau o ran COVID-19 uchod a'ch bod yn gwrthod.

Er mwyn cynorthwyo gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu GIG Cymru, gallwn gasglu eich manylion cyswllt (neu aelod arweiniol mewn perthynas â grwpiau) fel ymwelydd â'n cyfleusterau neu fel defnyddiwr gwasanaethau sy'n cael cyswllt wyneb yn wyneb ag un o weithwyr, gweithwyr asiantaeth, gwirfoddolwyr neu aelodau etholedig y Cyngor yn benodol at y diben hwn, neu gallwn ddefnyddio'r manylion cyswllt rydych chi wedi'u darparu i ni yng nghwrs arferol busnes (fel llogi cyfleusterau neu'ch ffeil achos) at y diben hwn. Gwneir y gwaith casglu/defnyddio data hwn yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Gellir gwrthod mynediad i'n cyfleusterau/at ein gwasanaethau, er diogelwch eraill, os gofynnwn am eich manylion cyswllt at ddibenion Profi, Olrhain a Diogeli a'ch bod yn gwrthod.

Gall gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu GIG Cymru ofyn am eich manylion cyswllt, a gallwn ni eu rhannu â'r gwasanaeth hwnnw, oherwydd efallai eich bod chi (neu aelod o'ch grŵp, os ydych chi'n aelod arweiniol) wedi dod i gysylltiad ag unigolyn (gan gynnwys un o weithwyr, gweithwyr asiantaeth, gwirfoddolwyr neu aelodau etholedig y Cyngor) sydd wedi cael canlyniad positif mewn prawf SARS-CoV-2 ers hynny, wrth ddefnyddio ein cyfleusterau neu gael gwasanaeth gennym ni.

Bydd gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu GIG Cymru yn defnyddio'ch manylion cyswllt i roi cyngor am COVID-19 i chi. Mae rhagor o wybodaeth am bwy yw gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu GIG Cymru, a sut y bydd yn defnyddio'ch gwybodaeth, ar gael yma: www.caerphilly.gov.uk/CaerphillyDocs/FOI/PrivacyNotices/TTP_privacy_notice_cy.aspx

Mae olrhain cysylltiadau yn ddull iechyd cyhoeddus hirsefydlog o atal lledaeniad llawer o heintiau a bu'n effeithiol wrth reoli coronafeirws mewn gwledydd eraill. Mae rhagor o wybodaeth am y broses Profi, Olrhain a Diogelu ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-coronafeirws

**Sail gyfreithiol ar gyfer y gwaith prosesu**

Er mwyn i brosesu data personol fod yn gyfreithlon o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016, mae'n rhaid nodi amod dilys o erthygl 6 o'r Rheoliad, a amlinellir isod (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw):

- Erthygl 6(1)(e) – processing is necessary for the performance of a task carried out in the public interest or in the exercise of official authority vesting in the controller

Mae deddfwriaeth Diogelu Data yn darparu amddiffyniad ychwanegol ar gyfer rhai dosbarthiadau o wybodaeth o'r enw 'data personol categori arbennig'. O ran eich cadarnhadau o ran COVID-19, mae hyn yn cydymffurfio â'r diffiniad o ddata personol categori arbennig ac felly mae'n rhaid nodi amod ychwanegol o Erthygl 9 o'r Rheoliadau er mwyn prosesu'r wybodaeth hon, fel yr amlinellir isod (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw):

- Erthygl 9(2)(i) – processing is necessary for reasons of public interest in the area of public health

Gall erthyglau cymwys eraill gynnwys (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw):

- Erthygl 9(2)(g) – processing is necessary for reasons of substantial public interest
- Erthygl 9(2)(h) – processing is necessary for the purposes of preventive or occupational medicine, for the assessment of working capacity of the employee, medical diagnosis, the provision of health or social care or treatment or the management of health or social care systems and services

Cefnogir gwaith prosesu eich data at ddibenion olrhain cysylltiadau gan:

- Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984
- Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd (Rheoli Gwybodaeth am Gleifion) 2002
- Deddf y Coronafeirws 2020
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020

## Pwy fydd yn cael mynediad at eich gwybodaeth?

**Manylion y Rheolydd Data a'r Swyddog Diogelu Data**

Y Rheolydd Data ar gyfer eich gwybodaeth yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Y Swyddog Diogelu Data yw:

Ms Joanne Jones
Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol/Swyddog Diogelu Data
E-bost: DiogeluData@caerffili.gov.uk
Ffôn: 01443 864322

Os rhennir eich manylion cyswllt â gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu GIG Cymru, gweler ei Hysbysiad Preifatrwydd i gael rhagor o wybodaeth am reolyddion data ychwanegol a all gael mynediad at eich data personol, sydd ar gael yma:
www.caerphilly.gov.uk/CaerphillyDocs/FOI/PrivacyNotices/TTP_privacy_notice_cy.aspx

**Manylion am brif ddefnyddwyr eich gwybodaeth**

Prif ddefnyddiwr eich gwybodaeth fydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, yn benodol y maes gwasanaeth sy'n darparu'r cyfleusterau/gwasanaethau yr hoffech gael mynediad iddynt/atynt.

**Manylion am unrhyw achos o rannu'ch gwybodaeth â sefydliadau eraill**

Nid ydym yn rhagweld rhannu eich cadarnhadau o ran COVID-19 â sefydliadau eraill.

Gall gwasanaeth Profi, Olrhain a Dioglu GIG Cymru ofyn am eich manylion cyswllt, a gallwn ni eu rhannu â'r gwasanaeth hwnnw, oherwydd efallai eich bod chi (neu aelod o'ch grŵp, os ydych chi'n aelod arweiniol) wedi dod i gysylltiad ag unigolyn (gan gynnwys un o weithwyr, gweithwyr asiantaeth, gwirfoddolwyr neu aelodau etholedig y Cyngor) sydd wedi cael canlyniad positif mewn prawf SARS-CoV-2 ers hynny, wrth ddefnyddio ein cyfleusterau neu gael gwasanaeth gennym ni.

Bydd gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu GIG Cymru yn defnyddio'ch manylion cyswllt i roi cyngor i chi ar COVID-19. Mae rhagor o wybodaeth am bwy yw gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu GIG Cymru, a sut y bydd yn defnyddio'ch gwybodaeth, ar gael yma:
www.caerphilly.gov.uk/CaerphillyDocs/FOI/PrivacyNotices/TTP_privacy_notice_cy.aspx

**Ceisiadau am wybodaeth**

Mae'n bosibl y bydd yr holl wybodaeth a gedwir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn destun ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a deddfwriaeth Diogelu Data.

Os bydd yr wybodaeth a ddarperir gennych yn destun cais o'r fath, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymgynghori â chi ynghylch ei rhyddhau, lle bo hynny'n bosibl. Os byddwch yn gwrthwynebu rhyddhau eich gwybodaeth, byddwn yn cadw'r wybodaeth yn ei hôl, os bydd y ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu i hynny ddigwydd.

## Pa mor hir byddwn yn cadw'ch gwybodaeth

**Manylion am y cyfnod cadw**

Mae'r cyfnod y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cadw gwybodaeth yn cael ei bennu drwy ofynion statudol neu arferion gorau.

Os byddwn yn casglu eich cadarnhadau o ran COVID-19 ar lafar wrth i chi ddod i mewn i'n cyfleusterau, ni fydd yr wybodaeth hon yn cael ei chadw. Os cesglir eich cadarnhadau o ran COVID-19 wrth logi cyfleusterau ar-lein, cedwir eich cadarnhadau o ran COVID-19 fel rhan o'r wybodaeth logi sydd fel arfer yn cael ei chadw am hyd at 7 mlynedd. Os cesglir eich cadarnhadau o ran COVID-19 yn ystod sgwrs dros y ffôn, yna yn y rhan fwyaf o achosion, ni fydd yr wybodaeth hon yn cael ei chadw oni bai bod yr alwad yn cael ei recordio, a byddwch yn cael gwybod am hynny. Mae'r cyfnod cadw cofnodion am alwadau ffôn yn amrywio yn ôl gwasanaeth.

Bydd eich manylion cyswllt, os na chânt eu casglu at ddibenion y broses Profi, Olrhain a Diogelu yn unig, yn cael eu cadw yn unol â'r cyfnod cadw arferol. Er enghraifft, mewn perthynas â llogi cyfleusterau lle mae ffi, mae hyn, fel arfer, yn 7 mlynedd. Bydd eich manylion cyswllt, os cânt eu casglu at ddibenion Profi, Olrhain a Diogelu yn unig, yn cael eu cadw am 21 diwrnod.

Os bydd angen rhannu'r wybodaeth hon â gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu GIG Cymru, gall y gwasanaeth hwnnw gadw'ch manylion cyswllt yn unol â'i gyfnodau cadw ei hun.

## Eich Hawliau (gan gynnwys y Weithdrefn Gwyno)

**Eich hawliau dan gyfraith Diogelu Data**

Mae'r Ddeddf Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i destun y data (y rheiny y mae'r wybodaeth yn sôn amdanynt):

- Hawl i gael mynediad at ddata gan y testun – mae ffurflenni cais ar gyfer y broses hon ar gael ar ein gwefan: Ffurflen Gais am Fynediad at Ddata gan y Testun (SAR)
- Yr hawl i gael gwybod
- Yr hawl i gywiro
- Yr hawl i ddileu
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu
- Yr hawl i wrthwynebu
- Yr hawl i gludadwyedd data
- Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.

Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau ar gael ar y wefan hon: www.ico.org.uk

Er mwyn arfer eich hawliau, cysylltwch â'r maes gwasanaeth y manylir arno ar frig y ffurflen hon.

**Y Weithdrefn Gwyno**

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymdrin â'ch cais/gwybodaeth, mae gennych yr hawl i gwyno. Cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth a fanylir ar frig y ddogfen hon gan amlinellu eich materion.

Os byddwch yn parhau'n anfodlon, mae gennych hefyd yr hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Am ragor o wybodaeth am y broses gwyno, dilynwch y ddolen hon.

www.caerffili.gov.uk/My-Council/Data-protection-and-freedom-of-information/Questions-and-complaints?lang=cy-gb

# Crynodeb o'r Hysbysiad Preifatrwydd

## Sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth

Er mwyn sicrhau diogelwch pawb, cyn i chi fynd i mewn i'n cyfleusterau neu gyfarfodydd wyneb yn wyneb â mewn mannau eraill ag un o weithwyr, gweithwyr asiantaeth, gwirfoddolwyr neu aelodau etholedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (y Cyngor), gall y Cygor ofyn am gadarnhad gennych chi nad oes gennych chi unrhyw symptomau COVID-19 ac NI ddywedwyd wrthych chi, eich aelwyd na'ch aelwyd estynedig am hunanynysu ac nad ydych chi ar hyn o bryd yn destun cwarantîn COVID-19 ar ôl teithio neu gyfnod o salwch.

Tasg gyhoeddus yw'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu'r data hyn, ac yn y rhan fwyaf o achosion, ni chaiff yr wybodaeth ei chadw oni bai ei bod yn cael ei chasglu yn ystod sgwrs dros y ffôn yr ydym wedi rhoi gwybod i chi ei bod yn cael ei recordio, neu fod yr wybodaeth yn cael ei chasglu fel rhan o'ch trefniadau llogi cyfleusterau ar-lein.

Er mwyn cynorthwyo gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu GIG Cymru, gallwn gasglu a rhannu eich manylion cyswllt (neu rai'r aelod arweiniol yn achos grwpiau) fel ymwelydd â'n cyfleusterau yn benodol at y diben hwn, neu gallwn ddefnyddio'r manylion cyswllt rydych chi wedi'u darparu i ni yng nghwrs arferol busnes (fel llogi cyfleusterau neu'ch ffeil achos) at y diben hwn. Gwneir y gwaith casglu/defnyddio data hwn yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Tasg gyhoeddus yw'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu'r data hyn a gellir rhannu'ch manylion cyswllt â gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu GIG Cymru, os gofynnir am hynny oherwydd eich bod chi (neu aelod o'ch grŵp yn achos archebion grŵp) wedi dod i gysylltiad ag unigolyn sydd wedi cael canlyniad positif mewn prawf SARS-CoV-2 ers hynny. Bydd eich manylion cyswllt, os na chânt eu casglu at ddibenion y broses Profi, Olrhain a Diogelu yn unig, yn cael eu cadw yn unol â'r cyfnod cadw arferol. Bydd eich manylion cyswllt, os cânt eu casglu at ddibenion Profi, Olrhain a Diogelu yn unig, yn cael eu cadw am 21 diwrnod.

Gellir gwrthod mynediad i'n cyfleusterau/at ein gwasanaethau, er diogelwch eraill, os gofynnwn am eich cadarnhadau o ran COVID-19/manylion cyswllt at ddibenion Profi, Olrhain a Diogeli a'ch bod yn gwrthod.

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael gafael ar wybodaeth sydd gennym amdanoch chi a'r hawl i gwyno os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu.

Am ragor o wybodaeth am eich hawliau a sut rydym yn prosesu'ch gwybodaeth, cliciwch ar y ddolen ganlynol:

{Hyperddolen i'r Hysbysiad Preifatrwydd Llawn ar ein gwefan}